Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Glannau Gwaun
# Clive Road
# Abergwaun
# Sir Benfro
# SA65 9DA

## Dyddiad yr arolygiad: Mai 2012

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk



**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 26/07/2012**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Glannau Gwaun yn ysgol gynradd ddwy ffrwd sydd wedi ei lleoli yn nhref arfordirol Abergwaun yn Sir Benfro. Darperir addysg i ddisgyblion rhwng tair ac un-ar-ddeg mlwydd oed. Adeg yr arolygiad mae 247 disgybl ar gofrestr yr ysgol, yn cynnwys 172 yn y ffrwd Gymraeg a 75 yn y ffrwd Saesneg. Mae 12 o'r disgyblion hyn yn derbyn addysg ran-amser yn y dosbarth meithrin. Mae dau ddosbarth cynhaliol, sy'n gwasanaethu gogledd Sir Benfro, yn yr ysgol ar gyfer disgyblion a chanddynt anghenion addysgol dwys a chymhleth.

Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion o'r ystod gallu llawn ac o gefndir cymdeithasol ac economaidd eang. Mae tua 26% o'r disgyblion â'r hawl i dderbyn prydau bwyd di-dâl. Mae 45% o'r disgyblion ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig, ffigwr sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gan 3 disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Daw tua 11% o'r disgyblion o gartrefi lle mae rhieni'n siarad Cymraeg. Tri disgybl sydd o gefndir ethnig lleiafrifol.

Lleolir yr ysgol mewn adeilad newydd a agorwyd ym mis Medi 2011. Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Medi 2008 ac mae newid sylweddol wedi bod yn staff yr ysgol yn ddiweddar. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn nhymor yr haf 2006.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2011-2012 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Glannau Gwaun yw £4,332 sy'n cymharu gydag uchafswm o £5,323 ac isafswm o £3,000 ar gyfer ysgolion cynradd yn Sir Benfro. Yr ysgol sydd â'r gyllideb fesul disgybl chweched uchaf o'r 61 ysgol gynradd yn Sir Benfro.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Anfoddhaol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- bod lleiafrif sylweddol o'r disgyblion yn gwneud cynnydd sy'n is na'r disgwyl yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- bod disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau llythrennedd;
- bod disgyblion ag anghenion addysgol arbennig o fewn yr uned arbennig yn gwneud y cynnydd priodol;
- er bod cynnydd ym mherfformiad disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol dros gyfnod, mae canlyniadau disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn gyson is na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg; a
- bod gormod o anghysondeb yn safon yr addysgu a'r asesu.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn anfoddhaol oherwydd:

- ni wnaed digon o gynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion yr arolygiad diwethaf;
- nad yw arweinyddiaeth wedi cael digon o effaith ar safonau, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2;
- bod arweinyddiaeth yr ysgol yn ansefydlog sy'n amharu ar y gallu i osod cyfeiriad strategol; a
- bod diffygion yng ngweithdrefnau hunanarfarnu'r ysgol ac yn ansawdd y cynllun datblygu ysgol.

## Argymhellion

Er mwyn gwella mae angen i'r ysgol:

A1 godi safonau, gyda sylw arbennig ar fedrau llythrennedd ar draws yr ysgol;

A2 sicrhau bod y ddarpariaeth yn caniatáu i ddisgyblion ar bob lefel gallu i gyrraedd eu potensial;

A3 sicrhau bod addysgu'n gyson dda neu'n well ar draws yr ysgol;

A4 codi safonau presenoldeb;

A5 sicrhau bod gweithdrefnau asesu ar gyfer dysgu yn cael eu defnyddio'n gyson ac yn effeithiol;

A6 cryfhau'r gweithdrefnau rheolaeth ac arweinyddiaeth ar bob lefel, gan gynnwys y staff a'r corff llywodraethol; a

A7 sicrhau bod gweithdrefnau hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant yn gynhwysfawr ac yn dreiddgar.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn bod angen gweithredu mesurau arbennig mewn perthynas â'r ysgol hon.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig o fewn yr uned arbennig yn gwneud cynnydd da.

Nid yw disgyblion o allu uwch bob amser yn cyflawni cystal ag y dylent yn y dosbarthiadau.

Mae gwahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad disgyblion sydd â hawl i ginio am ddim o'u cymharu gyda'r gweddill yng nghyfnod allweddol 2, er nad yw hyn yn wir am berfformiad disgyblion y Cyfnod Sylfaen.

Yn yr un modd, mae merched yn perfformio'n sylweddol uwch na'r bechgyn yng nghyfnod allweddol 2, er nad oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad y rhywiau yn y Cyfnod Sylfaen.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau llythrennedd Cymraeg yn y ffrwd Gymraeg ac yn y Saesneg yn y ffrwd Saesneg. Mae llawer o'r disgyblion yn darllen eu gwaith eu hunain a'u llyfrau darllen i safon sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Mae gallu'r disgyblion i ysgrifennu'n annibynnol yn dechrau datblygu'n briodol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall mwyafrif disgyblion saith mlwydd oed ysgrifennu dilyniant o frawddegau i wahanol bwrpasau, gan ddangos gafael briodol ar atalnodi sylfaenol. Er hynny, nid oes gan y lleiafrif afael digon sicr o iaith, na'r hyder i'w defnyddio wrth weithio ar dasgau grŵp.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae lleiafrif y disgyblion yn medru darllen deunyddiau pwrpasol ar goedd yn lled ystyrlon yn y Saesneg, ac yn y Gymraeg yn y ffrwd Gymraeg ac mae'r disgyblion sydd wedi derbyn cymorth ychwanegol ar gyfer darllen wedi dechrau gwneud cynnydd priodol. Mae ychydig o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 hefyd yn gwneud cynnydd priodol yn eu gallu i ysgrifennu'n estynedig yn eu geiriau eu hunain i ystod o bwrpasau yn y naill iaith neu'r llall. Anghyson yw ansawdd cyflwyniad y gwaith a safon llawysgrifen y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2. Yn y gwersi, nid oes digon o gynnydd yng ngallu'r disgyblion i gyfrannu'n fwy estynedig ar lafar yn y Gymraeg na'r Saesneg.

Mae tueddiadau mewn cyflawniad disgyblion diwedd cyfnod sylfaen yr ysgol yn y dangosydd pwnc craidd (canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 2 mewn cyfuniad o'r Gymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth) ar i fyny dros bum mlynedd. Mae tueddiadau mewn cyflawniad disgyblion ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn y dangosydd pwnc craidd (canran y disgyblion sy'n cyrraedd lefel 4 mewn cyfuniad o'r Gymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth) hefyd ar i fyny dros yr un cyfnod, ond maent yn gyson is na chyfartaledd Cymru a'r teulu o ysgolion tebyg.

Wrth gymharu cyflawniad yr ysgol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen gydag ysgolion tebyg o ran y canran sydd â hawl i dderbyn cinio am ddim, mae cyflawniad yr ysgol wedi amrywio rhwng y 50% uchaf a'r 50% isaf yn y dangosydd pwnc craidd; rhwng y 25% a'r 50% uchaf yn y Gymraeg; rhwng y 50% a'r 25% isaf yn y Saesneg; rhwng y 50% uchaf a'r 25% isaf mewn mathemateg a rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf mewn gwyddoniaeth dros bum mlynedd. Yn 2011 roedd cyflawniad yr ysgol yn y dangosydd pwnc craidd, y Gymraeg a mathemateg yn yr 50% uchaf; Saesneg yn yr 50% isaf, a gwyddoniaeth yn y 25% uchaf.

Wrth wneud yr un gymhariaeth ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae cyflawniad yr ysgol wedi amrywio rhwng yr 50% a'r 25% isaf yn y dangosydd pwnc craidd, mathemateg a gwyddoniaeth; rhwng yr 50% uchaf a'r 25% isaf yn y Gymraeg; ac yn gyson yn y 25% isaf yn y Saesneg dros bum mlynedd. Yn 2011 roedd cyflawniad yr ysgol yn y dangosydd pwnc craidd a'r Saesneg yn y 25% isaf, tra bod ei chyflawniad mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn yr 50% isaf.

### Lles: Digonol

Mae gan fwyafrif y disgyblion ddealltwriaeth briodol o bwysigrwydd bwyta prydau iach ac ymarfer y corff yn rheolaidd.

Mae'r rhan fwyaf yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod pwy i siarad ag ef neu hi os ydynt yn poeni neu'n gofidio.

Canran presenoldeb presennol yr ysgol yw 91.5% sydd yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a chyfartaledd Cymru gyfan. O'i gymharu ag ysgolion tebyg, mae presenoldeb wedi bod yn y chwarter isaf yn y ddwy flynedd diwethaf a chyn hynny yn y 50% isaf. Gwaharddwyd dau ddisgybl am gyfnod penodol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae mwyafrif y disgyblion yn cyfranogi'n briodol yn eu dysgu gyda bron pob un yn mwynhau ystod o brofiadau yn eu gwersi. Mae bron pob disgybl yn meithrin hyder drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned leol, er enghraifft cyngherddau, gwasanaethau a gweithgareddau mudiad yr Urdd.

Mae disgyblion yn manteisio ar y cyfle i gymryd rhan yn y broses o ethol eu cynrychiolwyr ar y cyngor ysgol. Gwerthfawroga aelodau'r cyngor ysgol y cyfle i gymryd rhai penderfyniadau sydd wedi arwain at wella elfennau o waith yr ysgol, er enghraifft penderfynu ar reolau aur yr ysgol. Er hynny, nid yw effeithiolrwydd y cyngor eto wedi datblygu'n briodol. Mae rhai disgyblion hŷn yn gweithredu fel bydis iard ac yn gofalu am ddisgyblion iau.

Dengys mwyafrif y disgyblion barch a chwrteisi tuag at eu cyfoedion a thuag at oedolion, gyda'r mwyafrif helaeth yn cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd a'u gwaith. Mae medrau datrys problemau mwyafrif y disgyblion yn datblygu'n briodol. Er hynny, nid yw gallu lleiafrif arwyddocaol y disgyblion i wella eu gwaith eu hunain wedi datblygu'n ddigonol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

## Profiadau dysgu: Digonol

Mae'r ysgol yn cynnig profiadau dysgu amrywiol ar gyfer y disgyblion, sy'n cyfarfod â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac egwyddorion y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio bob amser yn ysgogi nac yn diwallu anghenion lleiafrif sylweddol y disgyblion. Ar ei orau, mae cydgynllunio manwl rhwng athrawon yn sicrhau profiadau sy'n adeiladu ar ddysgu blaenorol ac yn herio'r disgyblion er mwyn gwneud y cynnydd disgwyliedig. Er hynny, nid oes cysondeb yn ansawdd y cynllunio ar draws yr ysgol.

Mae'r cynlluniau tymor byr yn nodi cyfleoedd i ymarfer medrau ond nid oes gan yr ysgol strategaeth glir ar sut i ddatblygu medrau cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu disgyblion ar draws y cwricwlwm. Ceir esiamplau da o ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu disgyblion, er enghraifft y defnydd o gyfrifiaduron llaw a thechnoleg y sgrin werdd er mwyn datblygu llythrennedd. Fodd bynnag, nid yw'r arfer dda hon yn weithredol ar draws yr ysgol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg yn amrywio ar draws yr ysgol. Yn nosbarthiadau isaf y Cyfnod Sylfaen a'r ffrwd Gymraeg, rhoddir sylw priodol i ddatblygu'r iaith ond ni roddir digon o gyfleoedd i ddisgyblion y ffrwd Saesneg i ddysgu ac i ymarfer yr iaith. Mae'r ysgol yn cynllunio'n briodol ar gyfer y Cwricwlwm Cymreig ac yn cynnig profiadau priodol sy'n hyrwyddo a datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o nodweddion a diwylliant yr ardal leol a Chymru.

Rhoddir sylw i agweddau eco a dinasyddiaeth fyd-eang yng nghwricwlwm yr ysgol. Mae'r disgyblion yn derbyn cyfleoedd i gysylltu gyda gwledydd tramor yn ogystal â helpu'r gymuned leol. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion yn cael digon o gyfle i ddatblygu eu gwybodaeth am faterion amgylcheddol nac i gyfrannu tuag at yr elfen bwysig hon o fywyd ysgol.

## Addysgu: Digonol

Mae gan lawer o'r athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn cynllunio ystod o weithgareddau diddorol sy'n ysgogi'r disgyblion. Mae tua hanner o'r gwersi a arsylwyd yn dda. Yn y gwersi hyn, ceir cyflymdra addas, tasgau diddorol a disgwyliadau uchel o ran cyflawniad y disgyblion. Fodd bynnag, nid yw safon yr addysgu'n gyson ar draws yr ysgol ac yn yr hanner sy'n ddigonol neu'n anfoddhaol, nid yw'r cynllunio'n adeiladu ar ddysgu blaenorol, nid yw disgwyliadau'r athrawon yn ddigon heriol ar gyfer oed a gallu'r disgyblion nac yn yr ymddygiad a ganiateir.

Mae'r berthynas rhwng yr athrawon a'r disgyblion ar y cyfan yn un sy'n annog parch a chwrteisi. Mae ethos cefnogol ac awyrgylch gweithgar o fewn mwyafrif y dosbarthiadau, lle mae pob unigolyn yn cael ei barchu.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau asesu ond nid yw mwyafrif yr athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o ddadansoddi canfyddiadau asesu, gan gynnwys asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac asesiadau eraill er mwyn cynllunio'n briodol ar gyfer unigolion. Mae athrawon wedi cydweithio gyda'r ysgol uwchradd leol er mwyn safoni

lefelau'r cwricwlwm yn y pynciau craidd ond nid yw’r broses safoni yn digwydd yn rheolaidd ar draws yr ysgol. Mae gweithdrefn dracio yn cael ei datblygu er mwyn olrhain cynnydd y disgyblion drwy'r ysgol. Er hynny, nid yw’n ddigon aeddfed hyd yn hyn i gael effaith gadarnhaol ar safonau. Mae'r ysgol yn cyhoeddi adroddiadau ar ddisgyblion sy'n glir ac yn cynnig gwybodaeth ar gynnydd a thargedau ar gyfer gwelliant.

Nid oes cysondeb mewn strategaethau asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddosbarthiadau yn gwneud defnydd o rai strategaethau elfennol ond nid ydynt wedi gwreiddio digon i gael effaith bositif ar safonau. Gwelir rhai enghreifftiau o farcio sy'n ymateb yn adeiladol i waith disgyblion sy'n eu galluogi i wybod pa mor dda y maent yn gwneud a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Er hynny, nid yw'r arfer hon yn gyson ar draws yr ysgol. Mae nodau dysgu a meini prawf llwyddiant yn cael eu cofnodi yn y cynllunio ond dim ond yn y lleiafrif o wersi mae athrawon yn eu rhannu gyda'r disgyblion. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion dargedau personol ar gyfer gwelliant ond nid yw'r rhain bob amser yn ddigon manwl a pherthnasol. O ganlyniad, nid yw’r disgyblion bob amser yn sicr o’r hyn sydd angen ei wneud er mwyn eu cyrraedd.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Darperir yn briodol ar gyfer datblygu iechyd a lles gan gynnwys datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol, drwy wasanaethau ysgol, amser cylch a hefyd o fewn sesiynau addysgu.

Gwneir defnydd effeithiol o wasanaethau arbenigol a chysylltiadau gydag asiantaethau allanol. Golyga hyn fod y gefnogaeth yn berthnasol, yn gyson ac yn briodol wrth gwrdd â gofynion unigolion. Mae’r ysgol wedi bod yn araf i ymateb i’r her o wella presenoldeb. Bellach mae ganddi systemau priodol i fonitro presenoldeb a phrydlondeb sydd wedi dechrau cael effaith gadarnhaol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Mae gan yr ysgol systemau priodol i adnabod yn gynnar unrhyw ddisgyblion ag anghenion addysgol ychwanegol. Mae aelodau staff yn ymwybodol o’r disgyblion hyn ac yn darparu tasgau priodol ar eu cyfer. Mae cynlluniau addysg unigol ar y cyfan yn ddogfennau effeithiol, sy’n hawdd i’w deall gan y disgyblion. Mae’r rhieni yn cael gwybod am y targedau sydd wedi eu gosod a chynnydd y disgyblion yn eu herbyn. Mae gan yr ysgol nifer o raglenni ymyrraeth ar gyfer disgyblion sy’n tangyflawni mewn meysydd penodol, sy’n cefnogi gwaith y dosbarth. Er hynny nid yw eu heffaith ar gynnydd disgyblion bob amser yn glir.

Yn y ddau ddosbarth ar gyfer disgyblion ag anghenion cymhleth a dwys mae’r ddarpariaeth yn lled effeithiol. Mae cynlluniau cynhwysfawr, penodol ar gyfer pob unigolyn. Yn y dosbarthiadau hyn, mae’r staff addysgu a chynorthwyol yn cydweithio’n effeithiol i ddarparu addysg berthnasol at ofynion pob disgybl.

Mae’r uned faeth ‘Criw Cwmni’ o fewn yr ysgol sy’n cynnal disgyblion ag anghenion emosiynol a chymdeithasol yn effeithiol iawn. Mae hyn yn sicrhau bod unigolion yn medru ymdopi’n well yn eu dosbarthiadau prif ffrwd maes o law.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cartrefol o fewn yr ysgol sy'n hyrwyddo'r ymdeimlad o berthyn a chydraddoldeb. Mae'r ysgol yn gwerthfawrogi a dathlu gwahaniaethau'n briodol drwy amrywiol weithgareddau o fewn y themâu tymhorol.

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol ble caiff pob disgybl ei drin fel unigolyn.

Mae gan yr ysgol ddigon o ystafelloedd dosbarth o'r maint priodol i ddiwallu anghenion y disgyblion ar y gofrestr. Mae'r adeilad yn newydd, yn cael ei gadw'n lân, ac mae safon uchel yr arddangosfeydd dosbarth a'r rheini yn y rhodfeydd yn helpu i greu amgylchedd dysgu liwgar. Mae gan yr ysgol ystod eang iawn o adnoddau newydd sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol. Gwneir defnydd effeithiol o'r ardal allanol ac mae'r adnoddau o ansawdd da. Er hynny, mae'r llwybr sy'n torri drwy dir yr ysgol yn cyfyngu ar gyfle'r disgyblion i ddefnyddio'r adnoddau allanol i'r eithaf cydol yr amser.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Anfoddhaol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Anfoddhaol**

Mae gan y pennaeth ddealltwriaeth glir o'r agweddau ar waith yr ysgol y mae angen eu gwella ac mae blaenoriaethau gwella priodol wedi eu nodi. Bu patrwm o welliant mewn rhai agweddau ar berfformiad y ysgol dros gyfnod. Fodd bynnag, nid yw arweinyddiaeth wedi cael digon o effaith hyd yma ar safonau cyflawniad a chynnydd ac mae gormod o amrywiaeth yn parhau mewn agweddau fel ansawdd yr addysgu ac asesu ar gyfer dysgu.

Mae cynnydd wedi ei wneud yn ddiweddar o ran sefydlu ymdeimlad o dîm a chytuno ar flaenoriaethau gwelliant. Fodd bynnag, mae'r ysgol yn parhau mewn cyfnod o gryn ansefydlogrwydd yn y sefyllfa staffio, yn enwedig ar lefel uwch dîm rheoli. Nid yw'r uwch dîm rheoli yn cadw cofnodion ffurfiol o'r trafodaethau ac mae diffyg capasiti yn rhwystr i osod cyfeiriad strategol cryf. Mae rolau arwain priodol gan aelodau o staff yn dilyn cyfnod o ad-drefnu cyfrifoldebau, ond nid yw'r cydlynwyr wedi cael digon o effaith ar ystod ac ansawdd y profiadau dysgu, yn enwedig mewn llythrennedd.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol i'r ysgol. Mae llywodraethwyr wedi sefydlu cysylltiadau buddiol â chydlynwyr pynciol ac yn cynyddu yn eu dealltwriaeth o ddata perfformiad. Nid yw'r llywodraethwyr yn gwneud digon o ddefnydd o ddata i herio'r ysgol yn ddigon penodol mewn perthynas ag agweddau ar danberfformiad, yn enwedig o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae llywodraethwyr yn gyfarwydd ag adroddiad hunanarfarnu a chynllun datblygu'r ysgol ond heb fod yn chwarae rhan ddigon gweithredol o ran pennu cyfeiriad strategol yr ysgol.

Mae'r Cyfnod Sylfaen wedi ei gyflwyno'n llwyddiannus ac mae'r ysgol wedi dechrau mynd i'r afael â gwella cyflawniad disgyblion â medrau llythrennedd gwan. Nid yw'r ysgol wedi gwneud digon i sicrhau gwelliant ym mherfformiad bechgyn a disgyblion â'r hawl i dderbyn prydau ysgol yn ddi-dâl a chodi safonau Cymraeg disgyblion yn y ffrwd Saesneg.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Mae arweinwyr wedi adnabod agweddau pwysig o berfformiad yr ysgol lle mae angen gwelliant. Fodd bynnag, rhy ychydig fu'r cynnydd yn sicrhau gwelliant arwyddocaol, yn enwedig mewn safonau llythrennedd ac ansawdd yr addysgu. Nid oes rhaglen fonitro gyfredol yn ei lle ac nid yw'r trefniadau hunan arfarnu'n cynnwys arsylwadau gwersi i fonitro'r dysgu a'r addysgu.

Mae'r adroddiad hunan arfarnu yn ddogfen sy'n cynnwys gwybodaeth fanwl am ystod eang o agweddau ar fywyd a gwaith yr ysgol. Mae dadansoddiadau data yn nodi'n glir y tueddiadau mewn perfformiad o gymharu â chymaryddion cenedlaethol a pherfformiad ysgolion tebyg. Mae'r adroddiad hunan arfarnu'n nodi agweddau priodol lle mae angen gwella, ond nid yw'n cynnig darlun digon cywir o agweddau ar arweinyddiaeth a threfniadau hunan arfarnu'r ysgol a chynnydd ers yr arolygiad diwethaf.

Mewn lleiafrif o achosion, mae cydlynwyr pynciol wedi archwilio samplau o waith disgyblion ar draws yr ysgol a rhannu'r canfyddiadau mewn cyfarfodydd staff. Nid yw'r cofnodion ysgrifenedig yn deillio o'r gwaith hwn yn ddigon manwl a threiddgar o ran adnabod agweddau i'w gwella a bwydo cynlluniau datblygu.

Mae'r cynllun datblygu ysgol yn nodi blaenoriaethau gwelliant priodol ar gyfer y flwyddyn gyfredol, ond nid oes ffocws digon clir ar godi safonau na defnydd digonol o ddangosyddion meintiol i fesur effaith. Er y nodir terfynau amser ar gyfer cyflawni'r bwriadau, nid yw'r rhain wedi eu hadolygu lle mae bwriadau wedi eu cario ymlaen o'r cynllun datblygu blaenorol.

Nid yw'r ysgol wedi gwneud digon o gynnydd yn erbyn argymhellion yr arolygiad blaenorol. Mae hyn yn enwedig mewn perthynas â chodi safonau, y ddarpariaeth ar gyfer medrau, ansawdd yr addysgu, a'r gweithdrefnau hunan arfarnu.

Mae'r ysgol yn datblygu fel cymuned ddysgu broffesiynol yn fewnol a thrwy gysylltiadau ag ysgolion eraill, er nad yw hyn hyd yma wedi arwain at effaith glir ar safonau. Nid oes digon o gyfleoedd i arsylwi a lledaenu arfer dda o ran addysgu.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n rheolaidd â rhieni drwy fwletinau ysgol ac yn darparu cyfleodd priodol i'r rhieni dderbyn gwybodaeth am gyflawniadau eu plant a thrafod eu cynnydd. Mae mentrau buddiol ar waith i weithio gyda rhieni i wella presenoldeb. Dosbarthwyd holiaduron rhieni ar gyfer canfod eu barn am agweddau ar fywyd a gwaith yr ysgol ac mae adroddiad defnyddiol wedi ei lunio sy'n crynhoi'r ymatebion er mwyn mynd i'r afael â'r materion sy'n codi.

Mae trefniadau bugeiliol priodol yn eu lle mewn perthynas â throsglwyddo i'r ysgol uwchradd. Mae'r ysgol yn gweithio'n briodol gydag ysgolion partner a'r ysgol uwchradd leol i sicrhau cysondeb asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

Mae'r ysgol wedi sefydlu cysylltiadau buddiol â nifer o fudiadau a chyrff lleol, yn cynnwys ymweliadau â busnesau lleol. Mae'n cydweithio'n agos ag asiantaethau sy'n darparu cymorth ar gyfer disgyblion bregus ac anghenion addysgol arbennig. Mae'r ysgol hefyd yn cydweithio'n helaeth â Phrifysgol Y Drindod Dewi Sant ar gyfer darparu lleoliadau hyfforddiant cychwynnol i ddarpar athrawon.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae trefniadau rheoli perfformiad priodol yn eu lle ar gyfer staff, sy'n arwain at bennu targedau a threfnu cyfleoedd hyfforddiant i ddiwallu anghenion.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd llawn o'r cyfleusterau helaeth y mae'r adeilad a'r safle yn eu darparu ac mae ganddi ddigon o adnoddau ac offer ar gyfer darparu ystod o brofiadau dysgu.

Mae costau gweithredu'r bwriadau wedi eu nodi'n briodol yn y cynllun datblygu ysgol. Mae'r ysgol wedi gwneud defnydd helaeth o arian wrth gefn i gynnal lefel staffio sy'n cyfateb i dros dri o athrawon amser llawn yn uwch na'r hyn y mae'r dyraniad yn y gyllideb yn ei ganiatáu. Nid yw'r sefyllfa hon yn gynaliadwy.

O ystyried safonau cyflawniad, mae'r ysgol yn darparu gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yn asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 2) mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad wedi bod yn debyg i ffigurau Cymru a'r teulu o ysgolion tebyg dros pedair o'r pum mlynedd ddiwethaf, heblaw am yn 2011 pan oedd yn uwch na ffigurau Cymru a'r teulu. Dros yr un cyfnod, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 2 mewn Saesneg wedi bod yn sylweddol is na ffigurau Cymru a'r teulu heblaw am yn 2011, pan oedd yn uwch. Mae'r canran sy'n cyflawni lefel 2 yn y Gymraeg a gwyddoniaeth yn gyson uwch na ffigurau Cymru a'r teulu dros bum mlynedd, heblaw am wyddoniaeth yn 2010 pan oedd yn is na ffigurau Cymru a'r teulu. Mewn mathemateg mae'r canran yn is neu'n gyfartal â ffigurau Cymru a'r teulu dros pedair o'r pum mlynedd ddiwethaf heblaw am yn 2011 pan oedd ychydig yn uwch mewn cymhariaeth.

Roedd y ganran o ddisgyblion a gyflawnodd lefel 3 mewn Cymraeg a Saesneg yn 2011 yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg ond yn is na ffigurau Cymru. Roedd y ganran a gyflawnodd lefel 3 mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn 2011 yn uwch na ffigurau'r teulu a Chymru.

Bu tuedd cyffredinol o gynnydd yn y canlyniadau ym mhob pwnc yn unigol a hefyd mewn cyfuniad dros bum mlynedd.

O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl, roedd perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 1 dros y pum mlynedd ddiwethaf yn yr 50% isaf mewn Saesneg, yn yr 50% uchaf mewn Cymraeg, rhwng y 75% uchaf a'r 25% isaf mewn mathemateg a rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf mewn gwyddoniaeth.

Yng nghyfnod allweddol 2, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad yn gyson is na chymedr y teulu o ysgolion yn y pum mlynedd diwethaf.

Mewn Saesneg, Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth, mae'r canran o ddisgyblion a gyflawnodd lefel 4 neu uwch yn gyffredinol wedi bod yn gyson is na chymedr y teulu o ysgolion tebyg a chymedr Cymru dros bob un o'r pum mlynedd ddiwethaf. Er hynny, mae tuedd cyffredinol o gynnydd yn y cyflawniad o flwyddyn i flwyddyn.

Yn 2011, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 4 mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad a hefyd Saesneg fel pwnc ar wahân, yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol ddi-dâl. Roedd canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 4 mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn yr 50% isaf yn 2011 o gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol di-dâl. Mae perfformiad mewn Saesneg wedi bod yn gyson yn y 25% isaf dros bum mlynedd, tra bod perfformiad mewn mathemateg a gwyddoniaeth wedi amrywio o'r 50% isaf i'r 25% isaf o'i gymharu â chanlyniadau ysgolion tebyg dros y pum mlynedd ddiwethaf. Mae canlyniadau'r Gymraeg wedi amrywio rhwng yr 50% uchaf a'r 25% isaf yn ystod yr un cyfnod.

Yn gyffredinol, mae canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 5 neu uwch wedi bod yn anwastad ac yn aml yn is na chymedr y teulu o ysgolion a Chymru dros y pum mlynedd ddiwethaf.

Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn o gymharu â merched yn y Cyfnod Sylfaen. Er hynny gwelir patrwm cyson o dangyflawniad bechgyn o gymharu â'r merched yng nghyfnod allweddol 2. Yn yr un modd, nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad disgyblion sydd â'r hawl i ginio di-dâl o gymharu â'r gweddill yng nghyfnod allweddol 1. Yng nghyfnod allweddol 2 mae'r gwahaniaeth yn sylweddol ac yn fwy na'r gwahaniaeth o gymharu â chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a ffigurau Cymru gyfan.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Holiaduron disgyblion

Cafwyd 107 ymateb gan y disgyblion.

Mae bron pob un o'r farn:

- eu bod yn gwybod pwy i siarad ag ef/hi os ydynt yn poeni neu'n gofidio;
- bod yr athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd; a'u
- bod yn gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd.

Mae'r rhan fwyaf o'r farn:

- eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol;
- bod llawer o gyfleoedd yn yr ysgol iddyn nhw gael ymarfer corff; a'u
- bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol;

Mae llawer yn teimlo:

- bod yr ysgol yn delio'n dda gydag unrhyw fwlio;
- bod yr ysgol yn eu dysgu sut i aros yn iach;
- bod eu gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella'u gwaith yn yr ysgol; a
- bod digon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron iddyn nhw wneud eu gwaith

Mae'r mwyafrif yn teimlo:

- bod bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

Tua hanner sy'n teimlo:

- bod plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu gwneud eu gwaith.

Mae ymatebion disgyblion Ysgol Glannau Gwaun yn llai ffafriol nag ymatebion cyfartalog disgyblion ar draws Cymru ym mhob datganiad.

**Holiaduron rhieni**

O’r 63 o ymatebion a gafwyd gan rieni.

Roedd pob un o’r farn:

- bod eu plant yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol.

Mae bron pob un o’r farn:

- bod eu plentyn yn hoffi’r ysgol hon; a
- bod eu plentyn wedi derbyn cymorth i ymgartrefu’n dda pan ddechreuon nhw yn yr ysgol.

Mae’r rhan fwyaf o’r farn:

- bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol;
- bod staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch;
- y caiff eu plentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd;
- bod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol; a
- bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Mae llawer o’r farn:

- bod yr addysgu’n dda;
- bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol;
- bod eu plentyn wedi ei baratoi’n dda ar gyfer symud ymlaen i’r ysgol nesaf;
- bod staff yn disgwyl i’w plentyn weithio’n galed a gwneud ei orau;
- eu bod yn fodlon gyda’r ysgol yn gyffredinol;
- bod amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau ar gael;
- bod gwaith cartref sy’n cael ei roi yn adeiladu’n dda ar yr hyn mae’r plant yn ei ddysgu yn yr ysgol;
- bod yn teimlo’n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i’r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem;
- bod yr ysgol yn helpu eu plentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb;
- eu bod yn deall y drefn ar gyfer delio â chwynion; a’u
- bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plentyn.

Mae ymatebion rhieni Ysgol Glannau Gwaun yn llai ffafriol nag ymatebion cyfartalog rhieni ar draws Cymru ym mhob datganiad ond un, sef bod pob un o’r farn bod eu plant yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol.

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Huw Watkins | Arolygydd Cofnodol |
| Iolo Dafydd | Arolygydd Tîm |
| Mike Hayes | Arolygydd Tîm |
| Veronica Williams | Arolygydd Lleyg |
| Kevin Davies | Arolygydd Cymheiriaid |
| Irwyn Wilcox | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

### Cwricwlwm Cenedlaethol

### Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

### Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol.  Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion.  Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.